Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Amlwch

Ysgol Gynradd Amlwch
Amlwch
LL68 9DY

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Amlwch

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Amlwch |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Anthea Owen |
| Person â gofal | Delyth Francis |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener - 9.05 tan 15.05 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 11/02/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 23/05/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/02/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i weithredu ar farn a llais y plentyn yn y cynllunio

A2 Cryfhau gweithdrefnau rhannu gwybodaeth am brofiadau a chynnydd plant gyda rhieni a gofalwyr

A3 Mireinio a chryfhau'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd yn annibynnol ac yn dewis o'r ystod eang o weithgareddau yn hwylus. Er enghraifft, mae rhai yn dewis chwarae gyda'r ceir neu'r trenau, ac eraill yn mynd draw at yr ardal chwarae rôl neu i'r ardal greadigol i arbrofi gyda'r toes. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio'n hapus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym, yn hapus a chartrefol yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i gael chwarae'n ddedwydd â'u ffrindiau. Mae'r plant yn cymdeithasu, sgwrsio, chwerthin a chanu'n braf wrth chwarae yn yr ardaloedd diddorol. Maent yn frwdfrydig wrth ddangos eu chwarae a'u gwaith i ymarferwyr ac ymwelwyr, ac yn falch i rannu eu lluniau o flodau gan ddisgrifio'r lliwiau'n gywir. Mae plant yn gyfarwydd â threfniadau ac arferion dyddiol cytûn y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau gwneud ffrindiau â'i gilydd dan ddylanwad ystyrlon yr ymarferwyr. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau ar y cyd yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n llwyddiannus i osod blociau mewn llinell er mwyn mesur gyda thâp mesur. Maent yn ffurfio perthynas gadarnhaol â'r ymarferwyr, sy'n cefnogi eu lles a'u profiadau dyddiol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn pwyso'n gartrefol ar gôl ymarferydd gan dderbyn cysur gofalgar pan maent yn teimlo'n drist.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac yn hyderus wrth symud yn ddigymell o un gweithgaredd i'r llall. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn pysgota yn y twba dŵr, gan ddefnyddio rhwyd neu wialen bysgota i ddal a'u dosbarthu o fewn gwahanol liwiau'n gywir. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau sylweddol ac yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd a gweithgareddau grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol, y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn meithrin medrau annibynnol da. Er enghraifft, wrth iddynt ddefnyddio'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo, a bwyta, yn gynyddol annibynnol. Maent yn dangos balchder cynhenid wrth gyflawni tasgau fel arllwys diod neu ddefnyddio'r peiriant grawnfwyd, gan ddangos mwynhad wrth dderbyn canmoliaeth wrth lwyddo.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol ac yn meithrin ystod o fedrau yn bwrpasol wrth chwarae a dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Maent yn gwrando’n ofalus ac yn ymateb yn hyderus i ymarferwyr, cyfoedion ac ymwelwyr. Er bod y mwyafrif o blant yn dod o aelwydydd di-Gymraeg, maent yn datblygu dealltwriaeth gynnar o eirfa Gymraeg ac yn dechrau defnyddio arwyddion di-eiriau syml yn bwrpasol wrth gyfathrebu. Mae eu geirfa’n ehangu’n gyson, ac maent yn ei defnyddio’n briodol mewn cyd-destunau ystyrlon, er enghraifft wrth ddisgrifio eu teimladau neu wrth esbonio eu dewisiadau yn ystod cyfnod chwarae rôl yn yr ardal cornel cartref.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb cynyddol mewn llyfrau ac yn mwynhau darllen llyfrau ffeithiol, gan gynnwys rhai am ryseitiau bwyd, cerbydau a dinosoriaid. Wrth ymlacio ar y soffa yn y gornel ddarllen, maent yn ymddwyn fel darllenwyr hamddenol ac yn dewis llyfrau stori adnabyddus o’r cratiau darllen pwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r adnoddau’n fwriadus i ailadrodd a chyd-adrodd stori yn ystyrlon i’w ffrindiau. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf yn meithrin eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol, gan ddeall yn gynyddol fod marciau’n cyfleu ystyr. Maent yn arbrofi’n hyderus â chreonau, paent a sialc mewn amrywiaeth o gyd-destunau chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mathemategol a rhifedd da. Maent yn canu ystod briodol o ganeuon a rhigymau rhif cyfarwydd yn hyderus yn ystod amser cylch, gan gryfhau eu dealltwriaeth o batrymau rhif yn bwrpasol. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau perthnasol wrth gyfri hyd at 10 yn fwriadus i bennu nifer y plant ar y mat. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth fathemategol yn briodol gan ddefnyddio iaith feintiol fel ‘mwy’ a ‘llai’ yn gynyddol hyderus wrth adeiladu tyrau gyda blociau o feintiau amrywiol ochr yn ochr â’r ymarferwyr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cydweithio’n ddiwyd â’i gilydd ac yn datblygu medrau datrys problemau priodol. Er enghraifft, wrth greu diod hud i’r wrach, maent yn dangos dyfalbarhad canmoliaethus wrth drafod ac ystyried yn ofalus pa gynhwysion i’w cynnwys yn y pair.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n briodol. Maent yn lled gyfarwydd â defnyddio adnoddau digidol wrth chwarae ac yn eu gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechi cyfrifiadurol yn gynyddol annibynnol i chwarae gemau sy’n atgyfnerthu eu medrau iaith yn bwrpasol, ac yn rheoli cerbydau rhaglenadwy yn ofalus i symud i gyfeiriadau gwahanol.

Mae rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau corfforol mawr da. Maent yn defnyddio beiciau yn egnïol â rheolaeth dda gan ddangos hyfedredd wrth gydbwyso a chydsymud yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau modur mân effeithiol wrth wehyddu pwmpenni'n ofalus gan ddefnyddio chwistrelli lliwgar pwrpasol. Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd da wrth feithrin eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi â phaent wrth greu eu dehongliadau eu hunain o genhinen pedr.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau yn glir a'u cyfrifoldebau yn dda gan weithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigol plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau yn glir. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, yn gwisgo menig wrth baratoi bwyd ac yn golchi dwylo yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac yn atgoffa plant yn gyson am beryglon a sut i gadw'n ddiogel. Mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac yn gwbl hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o bolisi rheoli ymddygiad y lleoliad, ac yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol. Mae ganddynt berthynas garedig a chynnes â'r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn modelu rhyngweithiadau naturiol a chadarnhaol yn gyson, ac yn addysgu plant i fod yn ystyriol, i rannu, a chymryd tro yn annwyl. Er enghraifft, pan mae plant yn gofyn am gymorth, mae ymarferwyr wrth law i gamu i mewn a chynnig cefnogaeth, pan fo angen. Maent yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod cyfnodau byrbryd, ac yn eu hatgoffa o bwysigrwydd bod yn garedig â'i gilydd. Mae hyn yn hyrwyddo medrau cymdeithasol y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, eu hoffterau a'u gofynion personol. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am hoffterau ac anghenion unigol cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n fwriadus i ddiwallu anghenion bob plentyn. Maent yn ymwybodol o gamau datblygu pob plentyn ac yn gweithredu'n fwriadus ar y camau nesaf yn nhaith dysgu plant unigol. Mae ganddynt weithdrefnau a rhwydweithiau pwrpasol ar waith i gynllunio gweithgareddau deniadol priodol. Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Maent yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol i sicrhau bod plant yn cael cymorth effeithiol yn ôl eu hanghenion.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Trwy ddulliau cynllunio bwriadus, mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol a chyfarwydd i blant sy’n meithrin ystod o fedrau yn bwrpasol. Mae’r rhain wedi’u seilio ar ddiddordebau’r plant, yn eu hannog i fod yn greadigol ac yn cyfateb yn briodol i’w cam datblygu. Mae ymarferwyr yn holi’r plant yn gyson i atgyfnerthu eu dealltwriaeth ac i’w hannog i feddwl. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn dechrau cynnwys llais y plentyn yn fwriadus, er enghraifft wrth ddarparu cerbydau bach a mawr amrywiol i blant i’w golchi a’u trwsio yn yr ardal ‘Garej beics Amlwch’ i ymateb i’w diddordebau. Er hyn, nid yw’r agwedd o wrando ar lais a barn y plentyn wedi gwreiddio’n llawn eto er mwyn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy’n deillio o syniadau’r plant.

Mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol ac ystyrlon tu fewn a thu allan i’r ddarpariaeth, sy’n galluogi plant i ymarfer a chymhwyso eu medrau yn barhaus. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd cynnar y plant yn bwrpasol. Maent yn darparu ystod addas o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol ac i greu marciau. Er enghraifft, trwy osod clipfyrddau a phensiliau yn yr ardal gartref i gyfoethogi profiadau chwarae rôl yn ‘Siop y Cylch’ i annog plant i farcio. Darpara’r ymarferwyr gornel ddarllen groesawgar a chartrefol sy’n dathlu llyfrau ac yn denu plant i eistedd a meithrin eu medrau darllen cynnar gyda mwynhad.

Rhinwedd arbennig y ddarpariaeth yw’r modd y mae arweinwyr yn meithrin medrau Cymraeg plant yn gyson. Trwy gydweithio’n fwriadus ag ymarferydd creadigol allanol, caiff y plant gyfleoedd ysgogol i feithrin eu medrau siarad yn greadigol trwy ailadrodd straeon a phatrymau iaith cyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau’n fwriadus yn yr ardal ddysgu allanol.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau a chyfleoedd pwrpasol i feithrin medrau rhifedd plant. Maent yn defnyddio gwrthrychau go iawn yn fwriadus, fel tapiau mesur a chloriannau, i alluogi’r plant i fesur, cydbwyso a chyfrif, er enghraifft wrth drin llyffaint bach. Mae ymarferwyr yn cynllunio’n feddylgar ar gyfer datblygu medrau digidol plant. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddefnyddio ystod o gyfarpar, fel gliniadur a ffôn ddeialu yn yr ardal gartref, i chwarae ac i gefnogi eu dysgu yn bwrpasol.

Mae datblygiad corfforol y plant yn cael ei gefnogi'n dda. Mae ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau priodol sy'n adeiladu’n fwriadus ar fedrau corfforol mawr a mân plant. Er enghraifft, cânt eu hannog i gymryd risgiau priodol wrth greu a dilyn cwrs antur a thrin offer bach pwrpasol yn fedrus yn yr ardaloedd. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd cyson a phwrpasol i feithrin medrau creadigol plant. Maent yn eu hannog i arbrofi’n rheolaidd ag ystod addas o gyfryngau a deunyddiau amrywiol, gan gynnwys dawns.

Mae ymarferwyr yn annog plant i feithrin ymdeimlad o chwilfrydedd tuag at natur yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn darllen stori am lindysyn, darperir cyfle gwerthfawr i'r plant ofalu am lindys byw ac arsylwi'n ofalus ar ei ddatblygiad wrth iddo droi'n löyn byw. Mae'r profiad uniongyrchol hwn yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o gylch bywyd ac yn eu haddysgu i ofalu am eu hamgylchedd a thrin pethau byw gydag empathi a pharch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysbrydol, moesol a diwylliannol  plant yn addas. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yn briodol drwy ddysgu am wyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn effeithiol drwy astudio hanes Santes Dwynwen a dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan feithrin ymdeimlad cynnar o berthyn ymhlith  plant a balchder yn eu hetifeddiaeth.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant yn dda. Er enghraifft, maent yn darparu adnoddau priodol sy'n annog plant i ddatblygu empathi a dychymyg trwy chwarae rôl, er enghraifft wrth ymgymryd â rôl nyrsys a meddygon wrth ofalu am ddoliau sy'n sâl. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau a gwybodaeth asesu yn bwrpasol i gynllunio cyfleoedd buddiol i blant adeiladu ar eu medrau a'u dealltwriaeth.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r amgylchedd i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei ddefnyddio'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg addas sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Maent yn eu hadolygu'n flynyddol ac yn ymateb i unrhyw risgiau newydd sy'n codi. Maent yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ac oedolion, gan gynnwys ymwelwyr, yn drwyadl. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ac yn eu cofnodi'n fanwl.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau ynghyd â ffotograffau ohonynt. Mae'r brif ystafell chwarae wedi ei threfnu'n ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu annibyniaeth plant yn fwriadus. Er enghraifft, mae bron bob adnodd wedi eu storio ar lefel isel ac ar silffoedd agored neu fasgedi wedi'u labeli'n drefnus. Mae hyn yn sicrhau bod gan blant fynediad i gyfarpar o safon, sy'n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Ceir amrywiaeth o adnoddau pwrpasol a gweithgareddau diddorol a pherthnasol sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol ac yn cefnogi eu hyder i wneud penderfyniadau yn gyson. Mae plant yn cael cyfle i fynd i'r toiledau a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Yn ogystal, mae'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn effeithlon.

Tu fewn, mae plant yn cael cyfleoedd helaeth i ddatblygu eu medrau, drwy gyffwrdd, archwilio a darganfod. Yn yr un modd, ceir cyfleoedd buddiol i blant ddefnyddio adnoddau go iawn gan ddatblygu eu dychymyg, eu hyder a'u medrau cymdeithasol yn bwrpasol. Yn ogystal, darperir adnoddau perthnasol i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth yn briodol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad wedi'i seilio ar ddarparu amgylchedd diogel, cartrefol ac ysgogol i blant. Fel un tîm gweithgar a chydwybodol, maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymateb yn garedig i anghenion pob plentyn. Mae'r holl staff yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn canolbwyntio'n briodol glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth ynghyd â medrau a lles plant yn barhaus.

Mae arweinwyr yn cymryd camau buddiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r datganiad o ddiben yn fuddiol ac yn amlinellu'n glir y gwasanaeth a gynigir. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn ac mae ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu rôl, hyfforddiant a goruchwyliaeth gyson. Mae arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn unol â gofynion ac yn eu gweithredu'n dda.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd priodol i ymarferwyr fynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysg a'u systemau gofal. Er enghraifft, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ystyrlon ar ddefnyddio symudiadau ac ystum di-eiriau yn galluogi ymarferwyr i gefnogi a meithrin medrau cyfathrebu plant yn fwriadus.

Gyda chymorth cyson athrawon a mudiadau cefnogi, mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso priodol gan lunio cynlluniau gwella addas. Er hyn, nid ydynt bob amser yn ystyried barn yr holl randdeiliaid yn ddigon rheolaidd wrth werthuso cryfderau a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, yn synhwyrol i flaenoriaethu gwariant yn unol â blaenoriaethau'r lleoliad. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi'n ddoeth mewn adnoddau cyfoethog i gefnogi ansawdd chwarae a dysgu plant yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn fwriadus.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gadarn â'r ysgol gynradd leol, ac mae hyn yn paratoi plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gynhyrchiol â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth am sut i gefnogi

lles a dysgu plant yn achlysurol trwy sgyrsiau dyddiol anffurfiol. Er hyn, nid yw arweinwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr am brofiadau, datblygiad a chynnydd eu plant yn ddigon cyson.

Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r modd mae arweinwyr yn croesawu ymwelwyr, fel y frigâd dân a'r heddlu, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Trwy ymweld â'r farchnad leol, mae'r plant yn dewis amrywiaeth o ffrwythau'n annibynnol ar gyfer paratoi salad ffrwythau iach at amser byrbryd yn y lleoliad ac yn trin arian wrth dalu'r gwerthwr. Mae hyn yn datblygu eu medrau siarad, rhifedd ac annibyniaeth yn effeithiol mewn cyd-destun ystyrlon ac ymarferol ac yn gwella eu dealltwriaeth o'u hardal leol a'r byd ehangach yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2026